



Ffilmiau Gwyrdd ar y Sgrin Fawr

Rhaglennu ar gyfer
ein Planed 2020



CHAPTER



Cynnwys

Cyflwyniad

Ffilmiau

Marchnata

Cefnogaeth

Hyfforddiant

Adnoddau

Canolfannau ecologyfeillgar

Partneriaid ysbrydoledig

Cysylltwch â ni

Lluniau'r clawr: © The Last Safari - AJKAK Moving Pictures 2019, 2040 - Together Films, Honeyland - Dogwoof, Embrace the Serpent - Pécadillo Pictures, Crannog - Alexandra Colta (Scot Doc Institute), Biggest Little Farm - Parkland Pictures, Hands On - Women, Climate, Change - Ěva Cvijanovic

Y dudalen hon: © David Attenborough, Life on our Planet



Cyflwyniad

Mae'r amrywiaeth o fywyd ar ein planed, o ficrobau i lewod, planhigion i bobl, yn helaeth, ac mae'r cyfan mewn perygl.

Yr argyfwng hinsawdd yw prif fater ein hoes. Sut allwn ni ddechrau gwneud gwahaniaeth? Mae ffilm yn arf bwerus sy'n ein caniatáu ni i gyfathrebu ac ysgogi pobl i weithredu. Gyda phandemig Covid-19 wedi cysgodi mudiadau amgylcheddol eleni, mae sinema'n rhoi'r cyfle i ni ailgysylltu â byd natur ar ôl cyfnod o ynysu.

Gan fod chynaliadwyedd amgylcheddol hefyd yn rhan o feini prawf cyllid BFI FAN, rydyn ni wedi creu rhestr o ffilmiau sy'n archwilio bob agwedd o'r pwnc. O ffermio cynaliadwy, i antur ôl-apocalyptaidd, nod y rhestr yw cefnogi'ch rhaglen wrth i chi ailagor. Detholiad yn unig sydd yn y pecyn hwn. [Cliciwch yma](#) i weld rhestr fanwl.



Ffilmiau

Newid Hinsawdd

Ffilmiau sy'n archwilio effaith yr argyfwng hinsawdd ar gymunedau, o ffermio yn Cenia, i'r adfocad Swedaidd, Greta Thunberg.

1 I Am Greta (2020) PG

Ffilm ddogfen sy'n dilyn Greta Thunberg, yr actifydd hinsawdd ifanc, ar ei chrwsâd i gael pobl i wrando ar wyddonwyr sy'n ein rhybuddio ni am broblemau amgylcheddol y byd.

Archebu: [Dogwoof](#)

2 An Inconvenient Sequel: Truth to Power (2017) PG

Degawd ar ôl i An Inconvenient Truth (2006) ddod a newid hinsawdd i ganol diwylliant poblogaidd, mae'r ail ffilm yn y gyfres yn dangos mor agos ydyn ni at chwyldro ynni go iawn.

Archebu: [Park Circus](#)

3 Thank You for the Rain (2017) Uncertified

Mae Kisilu, ffarmwr o Cenia, yn defnyddio ei gamera i ffilmio bywyd ei deulu, ei bentref ac effeithiau dinistriol newid hinsawdd.

Archebu: thankyoufortherain.com/host-a-screening



4 Rebuilding Paradise (2020) ^{12A}

Daw trigolion Paradise, tref yng Nghaliffornia, ynghyd i wella'u cymuned ar ôl tan gwyllt dinistriol.

Archebu: Dogwoof

5 2040 (2019) ^{PG}

Mae gwneuthurwr y ffilm yn trafod ambell ateb ymarferol i broblemau amgylcheddol y byd gyda'r gobaith y bydd ei ferch, a fydd yn 21 oed yn 2040, yn wynebu dyfodol gobeithiol.

Archebu: Together Films

6 Demain/Tomorrow (2015) ^{PG}

Mae hinsawdd y byd yn newid. Yn hytrach na dangos y sefyllfa waethaf, mae'r ffilm ddogfen hon yn taflu golau ar y bobl hynny sy'n awgrymu sut y gallwn ni ddatrys y sefyllfa a gweithredu.

Archebu: Elle Driver

7 David Attenborough: A Life On Our Planet (2020) ^{PG}

Mae David Attenborough wedi gweld mwy o natur nag unrhyw un arall. Y ffilm ddogfen hon yw ei ddatganiad tyst.

Archebu: Altitude (ar gael cyn 26 Hydref)

Syniadau gweithgareddau:

Beth am lanhau'r traeth gan gadw pellter cymdeithasol, casglu sbwriel yn lleol neu blannu coed mewn cydweithrediad ag ymddiriedolaeth gadwraethol. Mae gan Into Film adnodd sy'n seiliedig ar ffilm 2040.

Cadwch lygad allan am gynadleddau a digwyddiadau rhithiol yn ystod Wythnos Hlinsawdd Cymru, Llywodraeth Cymru, 2 - 6 Tachwedd 2020.



Bioamrywiaeth a Lles Anifeiliaid

Ffilmiau sy'n ffocysu ar y berthynas rhwng bodau dynol ac anifeiliaid. O ddifrod troffiau hela rhyngwladol i ofal diwedd bywyd anifeiliaid fferm.



Delwedd © The Champions - Firefly Films

Syniadau gweithgareddau:

Gofynnwch i'ch cynulleidfaoedd adeiladu cartref i draenogod ac i rannu'u lluniau gyda chi ar-lein, neu beth am redeg ymgyrch ail gartrefu gyda'ch cartref cŵn lleol.

1 Crannog (2018) Uncertified
Myfyrdod tawel ar garedigrwydd yng ngwyneb marwolaeth. Mae'r ffilm fer hon yn archwilio'r nerth a'r breuder sy'n rhan annatod o roi eich bywyd i ofalu am eraill.

Archebu: [Scottish Documentary Institute](#)

2 Born Free (1965) U
Stori George a Joy Adamson ac Elsa, y cenau bach amddifad y maent yn ei mabwysiadu.

Archebu: [Park Circus](#)

3 The Champions (2015) Uncertified
Stori ysbrydoledig y daeargwn pydew sy'n cael eu hachub o gylch ymladd Michael Vick, sef cyn seren tîm pêl-droed Americanaidd yr Atlanta Falcon, a'r rheiny sy'n eu hachub. Dyma stori am ail gyfle, gwaredigaeth a gobaith.

Archebu: [Firefly Films](#)

4 Black Fish (2013) 15
Ffilm ddogfen sy'n archwilio pwnc dadleuol caethiwo morfilod danheddog, a'r sgil effeithiau peryglus sydd i bobl a'r morfilod.

Archebu: [Dogwoof](#)

5 Blood Lions (2015) 16+
Mae'r ffilm ddogfen hon yn datgelu'r cam-fanteisio sy'n gysylltiedig â thwristiaeth sy'n annog pobl i ryngweithio a bywyd gwyllt, megis anwesu cenau a cherdded gyda llewod.

Cynnal dangosiad: info@bloodlions.org

1 **73 Cows (2018)** Uncertified

Mae ffermwr cig eidion yn brwydro a'i gydwybod bob tro mae'n mynd â'i wartheg i'r lladd-dy, ac yn gwneud penderfyniad eithriadol.

Archebu: [Lockwood Film](#)

2 **Honeyland (2019)** 12A

Mae'r helwraig gwenyn olaf yn Ewrop yn ceisio achub y gwenyn a sicrhau bod trefn natur yn parhau yn Honeyland. Pan ddaw deulu o wenywyr nomadaidd i'w hardal mae ei bywoliaeth mewn perygl.

Archebu: [Dogwoof](#)

3 **The Biggest Little Farm (2018)** PG

Mae'r dogfennwr John Chester a'i wraig Molly yn mynd ati i ddatblygu fferm gynaliadwy ar 200 erw y tu allan i Los Angeles.

Archebu: [Parkland Entertainment](#)

4 **Food Inc. (2008)** PG

Mewnwelediad anffafriol i ddiwydiant bwyd America sydd dan reolaeth gorfforaethol.

Archebu: [Dogwoof](#)



Cadwch lygad yn 2021 am: [Rooted Film](#)
[Mae Germaine Jenkins yr actifydd a ffarmwr dinesig yn brwydro am gyfiawnder bwyd yn Ne Carolina.](#)

Ffermio Ecogyfeillgar

Ffilmiau sy'n archwilio technegau ffermio chwyldroadol. O'r ffermwyr cig eidion sydd wedi mynd yn figan yn y DU i ffermio cynaliadwy yn LA.

Delwedd © Biggest Little Farm - Parkland Pictures



Syniadau gweithgareddau:

Beth am wahodd eich cynulleidfaoedd i gymryd rhan yng ngweithgareddau addysg Into Film? Mae ganddyn nhw bob math o adnoddau sy'n ymwneud â'r amgylchfyd, gan gynnwys [the Biggest Little Farm](#). Gallech chi hefyd gydweithio â siopau neu farchnadoedd lleol i gynnig cynnigion 'siopa'n lleol'.

1 Hands On – Women, Climate, Change (2014) Uncertified

Pump menyw o bedwar cyfandir sy'n mynd i'r afael â newid hinsawdd drwy bolisi, brotest, addysg ac arloesi.

Archebu: [Concordia](#)

2 Plastic China (2017) Uncertified

Mae menyw a'i theulu yn byw drws nesaf i ganolfan ailgylchu a mynyddoedd o wastraff plastig o Asia, Ewrop ac UDA.

Archebu: [Journeyman Pictures](#)

3 The Last Safari (2013) Uncertified

Mae Elizabeth L Gilbert y ffoto-newyddiades arobryn yn mynd ar daith fythgofiadwy drwy bellafoedd Affrica i ailgysylltu a'r bobl o'r llwythau y bu'n dogfennu degawd ynghynt.

Archebu: [AKJAK](#)

4 FernGully (1992) ^U

Mae trigolion hudolus coedwig law yn brwydro i achub eu cartref, sydd dan fygythiad cwmni torri coed dinistriol o'r enw Hexxus.

Archebu: [Park Circus](#)

5 Embrace The Serpent (2015) ¹²

Dyma stori Karamakate, siaman Amasonaidd a goroeswr olaf ei lwyth a dau wyddonydd sy'n cydweithio dros gyfnod o ddeugain mlynedd i chwilio'r Amazon am blanhigyn iachaol cysegredig.

Archebu: [Peccadillo Pictures](#)


Cadwch lygad allan am [Maxima](#):

Mae'r amgylcheddwr Máxima Acuña a'i theulu'n ceisio achub tir eu fferm ym Mheriw rhag datblygiad corfforaethol

Dynoliaeth a Natur

Cymerwch olwg ar effaith weithgareddau fodau dynol ar ein byd, a sut mae'n goroesiad yn holl ddibynnol ar y planed. O ganolfannau ailgylchu Tsiena i blanhigion iachaol cysegredig De America.

Delwedd © The Last Safari, AJKAK Moving Pictures



Syniadau gweithgareddau:

Rhowch her i'ch cynulleidfda - newid un cynnyrch plastig am fersiwn ecogyfeillgar a rhannu eu profiad gyda chi ar-lein. Neu beth am hyrwyddo cyrsiau ar-lein am ddim ar bynciau megis mudo a ffoaduriaid hinsawdd i'r [National Geographic](#)? Mae adnodd ar gyfer Stand with Maxima hefyd ar gael.

1 Kyaanisqatsi (1982) ^U

Casgliad o luniau arbennig o ffenomenau, heb stori gonfensiynol. Mae'r ffilm yn canolbwyntio ar natur, dynoliaeth a'r berthynas rhyngddynt.

Archebu: Park Circus

2 Home (2009) ^{12A}

Mae 'Home', sy'n cynnwys lluniau o'r awyr o 54 gwlad, yn dangos sut mae holl broblemau'r Ddaear yn gydgyssylltiol.

Archebu: Filmbank

3 Secrets of Nature (1926) ^{Uncertified}

Casgliad o ffilmiau byrion sy'n archwilio bywyd anifeiliaid, planhigion a thrychfilod. Mwynhewch dechnegau ffilmio sy'n torri tir newydd a sinematograffi microsgopig a thanddwr.

Archebu: BFI

4 The Hellstorm Chronicle (1971) ^A

sbonia wyddonwyr sut gallai drychfilod, drwy eu gwylltineb a'u heffeithiolrwydd, gymryd drosodd y byd.

Archebu: Park Circus

5 Earth (2007) ^{PG}

an wneuthurwyr y ffilm Deep Blue, dyma ffilm sy'n mynd ar daith ar hyd y blaned, o'r gogledd i'r dde. Ar hyd y daith fe welwn bedwar tymor a'r gwrthgyferbyniadau sydd rhwng gwahanol leoedd a sut maent yn newid fesul tymor.

Archebu: Filmbank

Byd Natur

Mwynhewch brydferthwch fyd natur ar y sgrin fawr, gyda ffotograffiaeth drawiadol a delweddau o'r awyr o'r Ddaear a'i drigolion.

Delwedd © Secrets of Nature - BFI



Syniadau gweithgareddau:

Beth am gynnal cystadleuaeth ffotograffiaeth neu ffilm gyda'ch cynulleidfaoedd, gyda gwobr ar gyfer y delweddau gorau o fyd natur?

Mae gan [Sol Cinema](#) hefyd gasgliad o ffilmiau amgylcheddol byrion y gallech chi eu dangos ar y cyd â Power Trip: Fracking in the UK.

Cefnogaeth

Os ydych chi wedi gwneud cais i Gronfa Arddangos Ffilmiau efallai yr hoffech chi gynnwys rhai o'r ffilmiau a chostau gweithgareddau yn eich rhaglen ailagor.

Gweler rhestr lawn o ffilmiau [yma](#).

Marchnata

Rhannwch eich rhaglen gyda ni **@Filmhubwales** gan ddefnyddio'r hashnodau **#GreenBigScreen** **#BFIFAN**

Hyfforddiant

Ymunwch â'n sesiwn argyfwng hinsawdd ar-lein gyda Cynnal Cymru ar 29 Hydref. Bydd y sesiwn yn rhannu arfer gorau o ran dadansoddi risg hinsawdd a chynllunio ar gyfer eich sinema neu wyl.

Efallai yr hoffech hefyd ymuno a'u cwrs Carbon Literacy Distance Online Learning course a gynhelir 5 - 8 Hydref.

Cynhelir y cwrs yn ystod mis Tachwedd hefyd (dyddiadau i'w cadarnhau). Gall FHW gynnig bwrsariau i aelodau i helpu gyda'r ffioedd.



Adnoddau

- [Business Declares Climate Emergency](#)
- [ICO greening Cinema toolkit](#)
- [Into Film](#)

Darganfyddwch ragor ar ein gwefan.

Ysbrydoliaeth ychwanegol

- [Wildscreen](#)
- [Open City Docs Fest](#)
- [UK Green Film Festival](#)
- [Environmental Film Festival in the Nation's Capital \(DCEFF\)](#)
- [San Francisco Green Film Festival](#)
- [International Wildlife Film Festival](#)
- [Planet in Focus](#)
- [Jackson Wild](#)
- [Wild and Scenic Film Festival](#)
- [Greenpeace Festival](#)
- [Mountain Film](#)
- [Human Rights Film Festival](#)
- [Wiki Environmental Films List](#)
- [Oceans Film Festival](#)
- [Welsh Government's Wales Climate week](#)



Delwedd © 73 Cows -
Lockwood Films

Enghreifftiau o ganolfannau ecogyfeillgar

- [Lewes Depot](#)
- [Scott Cinemas](#)
- [HOME](#)
- [Curzon](#)

Cysylltwch â ni

Canolfan Ffilm Cymru

Chapter, Market Road, Cardiff, CF5 1QE
www.canolfanffilmcymru.org



@FilmHubWales

Hana Lewis,
Rheolwr Strategol y Canolfan

hana@filmhubwales.org

02920 353 740

Lisa Nesbitt,
Swyddog Datblygu


lisa@filmhubwales.org

02920 311067

Megan David
Swyddog Marchnata:

megan@filmhubwales.org

02920 311057



CHAPTER



Delwedd © Hands On -
Iphigénie Marcoux-Fortier